# Adroddiad Trosolwg Ymgyngoriadau

*Trosolwg o ymgyngoriadau sydd wedi'u cynnal yng Nghaerdydd a'r prif faterion a nodwyd gan ddinasyddion*

# Cefndir a Diben

- Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol 12 wythnos ar Gynllun Lles Lleol Drafft Caerdydd (2023-28) rhwng 28 Hydref 2021 a 20 Ionawr 2023. Yn ogystal â chynnig copi o'r Cynllun drafft i ymgyngoreion statudol, rhoddwyd arolwg ar-lein – a oedd yn canolbwyntio ar yr Amcanion Lles a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth – ar wefan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC). Derbyniodd yr ymgynghoriad hwn dros 600 o ymatebion, gyda'r prif ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno ar sleid 4.

- I ategu'r ymgynghoriad uniongyrchol ar y Cynllun Lles, mae'r BGC wedi cynhyrchu crynodeb ehangach o ganlyniadau ymgynghoriad ac ymgysylltiad mawr a wnaed gan bartneriaid yn ystod 2022. Mae'r Pecyn Adroddiad hwn yn:

  - Crynhoi prif ganfyddiadau nifer o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

  - Cyflwyno'r prif ganlyniadau yn ôl Amcanion Lles

  - Tynnu sylw at unrhyw faterion penodol a godwyd gan grwpiau demograffig allweddol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r canlyniadau yn ôl demograffeg.

# Ymgysylltu ac Ymgynghori:  Ffynonnellau

Mae canlyniadau'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu canlynol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:

- **Holi Caerdydd:** Mae'r arolwg yn cael ei gynnal rhwng mis Hydref a Thachwedd bob blwyddyn. Yn 2022, derbyniodd yr arolwg 3,856 o ymatebion. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Derbyniodd yr arolwg yn 2021 2,704 o ymatebion ac mae modd dod o hyd i'r adroddiad yma.

- **Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant 2022:** Cynhaliwyd yr arolwg yng ngwanwyn 2022, gyda 7,660 yn cymryd rhan. Mae'r adroddiad i'w weld yma.

- **Arolwg Cam 1 Natur a Ni:** Cafodd arolwg Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei lansio ym mis Chwefror 2022 gan bara 10 wythnos. Roedd 262 o ymatebion o Gaerdydd. Mae'r adroddiad ar yr arolwg i'w weld yma.

- **Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl):** Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mai a Gorffennaf 2021. Ar ôl glanhau a dilysu data, derbyniwyd cyfanswm o 1,215 o ymatebion i'r arolwg yn gyffredinol. Mae'r adroddiad ar yr arolwg i'w weld yma.

- **Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft Ailgylchu a Gwastraff Caerdydd:** Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2022. Ar ôl glanhau a dilysu data, cafwyd 3,305 o ymatebion, gyda 2,475 o godau post dilys Caerdydd wedi'u nodi o fewn y canlyniadau. Mae'r adroddiad ar yr arolwg i'w weld yma.

- **Ymgynghoriad Dinas Gyfan ar y Strategaeth Fwyd**:Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mai a Mehefin 2022. Ar ôl glanhau a dilysu'r data, cafwyd 1,140 o ymatebion. Mae'r adroddiad ar yr arolwg i'w weld yma.

- **Arolwg Cymunedol Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru**: Cafodd yr arolwg ei lansio ym mis Tachwedd 2021 gan barhau am bum wythnos. Roedd 394 o ymatebion o Gaerdydd. Mae'r adroddiad ar yr arolwg i'w weld yma.

# Cynllun Lles Lleol Drafft Caerdydd (2023-2028):
## Canlyniadau'r arolwg ar-lein

Casglodd yr arolwg ar-lein dros 600 o ymatebion cychwynnol.  Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r ymatebion a gafwyd.

| Amcan Lles | Y ganran sy'n cytuno â hyn fel amcan ar gyfer y ddinas | Canran sy'n cytuno â'r blaenoriaethau a awgrymir yn y Cynllun drafft |
|---|---|---|
| **Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu** | 81% | 82% |
| **Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn** | 90% | 91% |
| **Cefnogi Pobl Allan o Dlodi** | 86% | 84% |
| **Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus** | 84% | 81% |
| **Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru** | 82% | 69% |
| **Caerdydd Un Blaned** | 75% | 78% |
| **Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus** | 79% | 78% |

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Iechyd a Lles

- Mae plant yn teimlo ychydig yn hapusach na grwpiau eraill, gyda sgôr ar gyfartaledd o 6.7 allan o 10. Mae hyn yn debyg i'r sgôr o 6.6 o Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant 2019, a'r sgôr o 6.6 i oedolion yn Arolwg Holi Caerdydd 2021.

- Mae rhai gwahaniaethau demograffig allweddol:

  - Mae plant iau yn hapusach na phlant hŷn
  — Mae gwrywod yn hapusach na merched
  — Mae'r rhai sydd ag anabledd yn llai hapus

| **Sgôr Cyfartalog** Hapusrwydd yn ôl Grŵp | Lleoliad | Sgôr |
|---|---|---|
| Cynradd | 3440 | 7.3 |
| Gwryw | 3094 | 7.0 |
| **Cyffredinol** | **6313** | **6.7** |
| Ethnigrwydd Lleiafrifol | 2448 | 6.7 |
| Yr Arc Ddeheuol | 2310 | 6.7 |
| Benyw | 3115 | 6.5 |
| Gofalwr | 531 | 6.5 |
| Uwchradd | 2856 | 6.0 |
| Anabledd | 235 | 5.8 |


- Pan ofynnwyd pa bethau sy'n eu poeni neu'n gwneud iddyn nhw deimlo'n drist, ymatebodd plant gyda'u 'dyfodol,' eu 'haddysg,' a'u 'perthnasoedd' fel yr atebion mwyaf cyffredin. Roedd y tri ymateb hyn yn fwy cyffredin yng nghanlyniadau 2022 na chanlyniadau 2019.

*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Cymdogaeth

- Pan ofynnwyd beth oedd y peth gorau am eu cymdogaeth, tri phrif ateb plant oedd: y bobl (53.8%), mannau agored (39%), a bod yn agos at yr ysgol (38.3%).
- Pan ofynnwyd beth oedd y peth gwaethaf am eu cymdogaeth, y tri ateb mwyaf cyffredin oedd: sŵn (27.4%), baw/aflan (27.1%), a gangiau/grwpiau (20.9%).
- Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o blant (88.9%) yn 2021 yn meddwl bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd. Mae hyn wedi gwella o'r ffigwr yn 2019 (84.7%).
- Pan ofynnwyd 'ydych chi'n teimlo bod eich barn yn cael ei chlywed a’i chymryd o ddifrif?', roedd bron i chwarter (23.7%) y plant yn teimlo bod eu barn 'bob amser' yn cael ei chlywed a’i chymryd o ddifrif, i fyny o 15.9% yn arolwg 2019.




*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*


# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Addysg

- Dywedodd ychydig llai na hanner y plant (46.8%) eu bod yn gallu gwneud eu gorau yn yr ysgol '*drwy'r amser*'.  O'r rhai a gafodd drafferth gyda hyn, dewiswyd straen fel y broblem mwyaf cyffredin (50.5%).

- O ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, er bod ychydig dros hanner (56.2%) wedi dweud eu bod yn fodlon â'u dewisiadau, nid oedd y rhan fwyaf yn credu bod eu cyrsiau'n gweddu i'w galluoedd, y byddai eu dewisiadau'n helpu eu gyrfaoedd, nac y byddai ganddynt ystod ddigonol o opsiynau ar gael iddynt. Dim ond 9.8% a nododd bod cyngor ac arweiniad gyrfaoedd wedi bod o help iddynt (i lawr o 15.7% yn 2019).

**What is stopping you (…from doing your best at school)?**




*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Iechyd a Lles


- Roedd Iechyd Meddwl plant wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2019 a 2022.

- Dywedodd llai o blant bod eu hiechyd meddwl ac emosiynol yn 'ardderchog' ac mae mwy yn dweud ei fod ond yn 'dda' neu'n 'deg'.  Mae'r gyfran sy'n ei hadrodd fel 'gwael' wedi aros yr un fath (8.7%).

- Adroddir bod iechyd corfforol plant yn debyg yn 2022 i 2019.

- Nid yw tua un o bob pump o blant yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth am broblem iechyd corfforol neu feddyliol. Nid oedd cyfran debyg chwaith yn cytuno gyda'r datganiad bod cefnogaeth ar gael i'r rhai sy'n anhapus, yn poeni, neu'n methu ymdopi.
  - Roedd plant ysgol uwchradd, ynghyd â phlant anabl, hyd yn oed yn llai tebygol o wybod sut i gael gafael ar gymorth neu gytuno ei fod ar gael.

**Do you know where to go to get help and support for any physical or mental or emotional health problems?**




*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*


# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Diogelwch Cymunedol

- Roedd y rhan fwyaf o blant (86.5%) yn 2022 yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth.  Mae hyn wedi gwella o'r ffigwr yn 2019 (83.4%).  O'r rhai nad oeddent yn teimlo'n ddiogel, y rhesymau mwyaf cyffredin oedd ofnau ynghylch gangiau/grwpiau, troseddau cyllyll, a byrgleriaeth.

- Atebodd llai o blant eu bod wedi dioddef trosedd yn 2021 nag yn 2019, ond cyfaddefodd 2.6% eu bod wedi peidio â rhoi gwybod i oedolyn neu'r heddlu. Roedd plant ag anabledd yn llawer mwy tebygol o ddatgan eu bod wedi dioddef trosedd.

- Roedd 76.6% o'r plant yn credu bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud digon i daclo troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn gynnydd o ffigur 2019 (72.4%).





*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Pobl ifanc ag Anghenion Ychwanegol

- Er bod 6.7% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn rhiant i rywun dan 25 oed ag anghenion ychwanegol, ychydig dros hanner yr ymatebwyr hyn oedd wedi cael cefnogaeth i'w plentyn:




- Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan yr ymatebwyr oedd eu bod yn anymwybodol o'r gefnogaeth oedd ar gael.

- Roedd llai na thraean o'r ymatebwyr hyn yn ymwybodol o'r Mynegai Anabledd

- Gofalwyr Ifanc - dywedodd 8.2% o blant eu bod yn gofalu am rywun gartref.

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022) ac Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Gwella Caerdydd

- Gofynnwyd cwestiwn agored i blant am yr hyn y gellid ei wneud i wneud Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu. Rhoddwyd atebion testun rhydd mewn categorïau, gyda'r ymatebion canlynol ymhlith y mwyaf cyffredin:
  - Yr Amgylchedd
  - Gweithgareddau
  - Cydraddoldeb


| Thema Grŵp | Nifer yr ymatebion | % |
|---|---|---|
| Llai o Sbwriel / baw ci / llygredd / gwell amgylchedd | 857 | 25.9 |
| Mwy o fannau gwyrdd / parciau / clybiau gweithgareddau / canolfannau ieuenctid | 848 | 25.6 |
| Cydraddoldeb - Peidiwch â bwlio/byddwch yn garedig i bawb | 370 | 11.2 |

*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Hawliau Plant

- Mae nifer y plant sydd wedi clywed am hawliau plant wedi cynyddu o 77.2% yn 2019 i 85.8% yn 2022.
- Cynyddodd nifer y plant sydd wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ychydig o 43.8% yn 2019 i 46.4% yn 2022.
- Ar gyfer y ddau uchod, roedd plant ysgolion cynradd yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o hawliau plant na phlant ysgol uwchradd.





*Ffynhonnell: Arolwg Dinasoedd sy'n Dda i Blant (2022)*

# Amcan Lles 1 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Boddhad Gwasanaeth

- Cododd canran y rhai sy'n fodlon gydag ardaloedd chwarae plant yn lleol yn 2022 i 57.5% o 52.9% yn 2021.
- Gostyngodd canran y rhai oedd yn fodlon â gwasanaethau a gweithgareddau ieuenctid lleol o 14.3% yn 2021 i 14.1% yn 2022.
- Dywedodd 72.6% o'r ymatebwyr sydd wedi defnyddio Gwasanaethau Rhianta eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth.
- Dywedodd 72.6% o'r ymatebwyr sydd wedi defnyddio'r Gwasanaethau Cyngor a Chymorth i Deuluoedd eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth.
  - Dim ond 22.1% o'r ymatebwyr oedd yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd.

**How satisfied or dissatisfied are you with the following in your neighbourhood?**





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

## Boddhad gyda'r Ardal Leol fel Lle i Fyw ynddi

- Roedd boddhad gyda'r gymuned leol fel lle i fyw ar ei uchaf ymhlith yr ymatebwyr hŷn (76.4%) a siaradwyr Cymraeg (75.1%); roedd ar ei isaf ymhlith yr ymatebwyr sy'n byw yn yr Arc Ddeheuol (60.9%), y rhai sy'n nodi eu bod yn anabl (61.6%) a'r rhai dan 35 oed (62.0%).

- Ymatebwyr hŷn oedd fwyaf tebygol o gytuno â'r datganiad "*Yn fy nghymdogaeth mae pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd ac yn helpu ei gilydd*" (55.2%)




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*


# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu’n hŷn

## Iechyd Corfforol

- Dangosodd dadansoddiad o'r gwahanol grwpiau demograffig bod y nifer oedd yn disgrifio eu hunain mewn iechyd corfforol da yn gyson ar draws y grwpiau, gyda'r rhai dros 55 yn fras yn unol â'r rhan fwyaf o grwpiau demograffig.

- Roedd y rhai oedd yn nodi eu bod yn anabl yn eithriad nodedig gyda dim ond 27.4% o'r grŵp hwn yn disgrifio eu hiechyd corfforol fel 'da' neu 'dda iawn' (i lawr o 63.6% yn 2021, a 31.5% yn 2020).


- Rhwng 2020 a 2022, dynion (50.8%) a phobl 55 oed neu hŷn (50.5%) oedd fwyaf tebygol o nodi nad oedd newid yn eu hiechyd corfforol.




## Iechyd Meddwl

- Roedd gostyngiad yng nghyfran yr ymatebwyr oedd yn disgrifio eu hiechyd meddwl fel 'da neu'n 'dda iawn', gan ostwng o 70.3% yn 2021 i 65.0%, ac 11.5 pwynt canran yn is na lefelau cyn y pandemig yn 2019.

- Roedd ymatebwyr hŷn yn arbennig yn fwy tebygol na phobl iau o ddweud bod eu hiechyd meddwl yn dda (71.3% o'i gymharu â 53.0% yn y drefn honno).



# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

## Lles

- Nododd pobl hŷn, ar gyfartaledd, les uwch na grwpiau eraill yng Nghaerdydd – o'i gymharu â'r holl ymatebwyr, roedd y rhai 55+ oed yn fwy bodlon, yn fwy hapus, yn llai pryderus ac yn fwy tebygol o deimlo bod y peth maen nhw'n ei wneud yn eu bywyd yn werth chweil.

- Fodd bynnag, roedd y rhai 55+ oed yn lleiaf tebygol o fod wedi gweld gwelliannau i'w lles dros y 12 mis diwethaf (11.3%).

- Fe wnaeth 42% o bobl dros 55 oed ddweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu gan broblem iechyd neu anabledd.

**How do you feel about yourself?***

| *Group* | Satisfied | Happy | Anxious | Worthwhile |
|---|---|---|---|---|
| All respondents | 6.6 | 6.5 | 4.1 | 6.6 |
| | | | | |
| Under 35 | 6.4 | 6.1 | 4.8 | 6.2 |
| 55+ | 6.9 | 6.9 | 3.6 | 6.9 |
| Female | 6.6 | 6.5 | 4.3 | 6.7 |
| Male | 6.8 | 6.7 | 3.7 | 6.7 |
| Minority Ethnicity | 6.7 | 6.5 | 4.6 | 6.8 |
| Southern Arc | 6.4 | 6.3 | 4.3 | 6.4 |
| Identify as Disabled | 5.4 | 5.4 | 4.4 | 5.5 |
| Welsh Speaker | 6.9 | 6.8 | 4.1 | 7.1 |
| LGBTQ+ | 6.1 | 5.9 | 4.7 | 6.1 |
| Children in household | 6.5 | 6.4 | 4.4 | 6.8 |
| Most Deprived | 5.8 | 5.8 | 4.5 | 5.8 |
| Next Most Deprived | 6.4 | 6.2 | 4.3 | 6.5 |
| Middle | 6.7 | 6.6 | 3.9 | 6.7 |
| Next Least Deprived | 6.7 | 6.6 | 4.1 | 6.7 |
| Least Deprived | 6.2 | 7.0 | 3.7 | 7.2 |

**Lle mae sgoriau'n well na'r cymedr cyffredinol o 0.2 (yn uwch am foddhad, hapusrwydd a theimlo'n werth chweil, ac yn is am bryder), mae'r celloedd wedi'u hamlygu'n wyrdd; mae'r rhai sy'n waeth gan 0.2 wedi'u hamlygu'n goch. Mae'r rhai o fewn +/- 0.2 o'r cymedr cyffredinol wedi'u hamlygu'n oren. Os nad yw'r gwahaniaeth ymddangosiadol o +/- 0.2 wedi'i amlygu, mae hyn oherwydd bod ffigurau'n cael eu talgrynnu i fyny/i lawr.*

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

## Diogelwch Cymunedol

- Mae trigolion hŷn yn teimlo'n ddiogel gan amlaf - yng ngolau dydd - yn eu cartrefi, yn teithio ar fws ac yn cerdded yn eu cymdogaethau. Fodd bynnag, mae'r ganran sy'n teimlo'n ddiogel yn yr ardaloedd hyn yn gostwng wrth ystyried diogelwch ar ôl iddi nosi.

- Mae trigolion hŷn yn teimlo'n llai diogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas ac wrth feicio yng Nghaerdydd, yn enwedig wedi iddi dywyllu.

- Mae trigolion hŷn yn llai tebygol na grwpiau eraill o gytuno bod yr Heddlu a gwasanaethau cyhoeddus lleol yn llwyddo i ddelio gyda thor-cyfraith ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal.

| % Feeling Safe | At home | | Walking in your neighbourhood | | Walking in the city centre | | Travelling by bus | | When cycling in Cardiff | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Daylight* | *After Dark* | *Daylight* | *After Dark* | *Daylight* | *After Dark* | *Daylight* | *After Dark* | *Daylight* | *After Dark* |
| **Overall** | 96.3 | 85.9 | 92.8 | 53.1 | 82.8 | 30.3 | 94.3 | 54.4 | 60.9 | 24.5 |
| **Under 35** | 96.3 | 81.8 | 89.3 | 44.8 | 84.0 | 31.0 | 93.0 | 55.1 | 67.8 | 27.0 |
| **55+** | 96.7 | 89.8 | 94.7 | 59.9 | 85.0 | 32.3 | 95.9 | 58.0 | 60.0 | 24.0 |
| **Female** | 96.4 | 85.1 | 92.7 | 45.0 | 83.3 | 24.4 | 94.6 | 47.9 | 60.4 | 18.3 |
| **Male** | 96.6 | 89.8 | 94.4 | 69.0 | 83.9 | 42.1 | 94.9 | 68.2 | 67.1 | 34.0 |
| **ME** | 97.9 | 86.1 | 91.0 | 56.2 | 91.6 | 31.3 | 97.8 | 67.7 | 72.8 | 32.4 |
| **Southern Arc** | 95.3 | 82.4 | 89.8 | 41.3 | 84.6 | 32.2 | 92.8 | 55.7 | 63.9 | 27.9 |
| **Disability** | 90.4 | 76.2 | 86.6 | 40.7 | 73.4 | 46.8 | 90.1 | 41.4 | 49.8 | 20.9 |
| **Welsh speaker** | 96.9 | 86.0 | 95.4 | 57.5 | 84.5 | 31.8 | 94.5 | 58.2 | 59.5 | 25.5 |
| **Children in household** | 96.5 | 85.0 | 92.2 | 50.2 | 81.1 | 35.3 | 93.3 | 53.6 | 64.8 | 24.0 |
| **LGBT** | 96.3 | 83.4 | 88.4 | 50.4 | 83.6 | 31.1 | 92.9 | 57.6 | 59.8 | 28.7 |

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*


# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

## Mynediad i Wasanaethau

- Hanner y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn 'A oes gan eich cymdogaeth leol y gwasanaethau a'r amwynderau sydd eu hangen i fodloni'ch anghenion?' Roedd (50.4%) o'r farn bod gan eu cymdogaeth y gwasanaethau a'r amwynderau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion; roedd 37.7% yn teimlo nad oedd ganddynt.

- Ymatebwyr o dan 35 oed oedd fwyaf tebygol o ateb 'Oes' i'r cwestiwn hwn (59.0%), tra bod 48.6% o'r rhai 55+ oed wedi ateb 'Oes.'

- Dywedodd bron i hanner y rhai sy'n disgrifio eu hunain yn anabl (49.4%) 'Nac oes'.




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

## Bywyd y Ddinas a Gwasanaethau Cyhoeddus

- Pobl 55+ oed oedd leiaf tebygol o gytuno 'mae'r *Cyngor yn werth da am arian*', ynghyd â'r rhai sy'n uniaethu fel anabl.

## Eich Cymdogaeth

- Ynghyd â Siaradwyr Cymraeg, rhai sy'n 55+ oed sydd fwyaf tebygol o wirfoddoli yn eu cymuned.

## Tai

- Pobl 55+ oed sydd fwyaf tebygol o gael mynediad i dai o ansawdd da.

- Sefyllfa dai y rhai 55+ oed sydd leiaf tebygol o fod wedi newid.

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2021 a 2022)*

# Amcan Lles 2 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

## Swyddi a'r Economi

- Sefyllfa gyflogaeth y rhai 55+ oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros yr un fath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Sefyllfa ariannol y rhai 55+ oed oedd hefyd fwyaf tebygol o fod wedi aros yr un fath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Yr Amgylchedd

- Ynghyd â'r rhai oedd yn byw yn yr Arc Ddeheuol, roedd y rhai a nododd eu bod yn anabl leiaf tebygol o gytuno bod gan Gaerdydd amgylchedd glân.

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Cymdogaeth


- Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn y ddinas yn fwy bodlon â’u cymuned leol fel lle i fyw na'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf - gyda'r cyntaf ddwywaith yn fwy tebygol o ddisgrifio'u hunain yn 'fodlon iawn' na'r olaf (22.7%) o'i gymharu â 11.9% yn y drefn honno).

- Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf hefyd yn llawer mwy tebygol na'r rhai gyda’r amddifadedd mwyaf o ddweud bod eu cymdogaeth yn fan lle mae pobl yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd.


- Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf ychydig yn fwy tebygol na'r rhai yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf i gytuno eu bod wedi bod yn defnyddio mwy o wasanaethau lleol (40.7% o'i gymharu â 45.7% yn y drefn honno).

- Dywedodd tua un o bob wyth - 13.6% o'r ymatebwyr a oedd yn byw yn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf y ddinas nad oedden nhw'n gallu cael mynediad at fand eang fforddiadwy.

**How satisfied or dissatisfied are you with your local community as a place to live? Deprivation Fifth**




**To what extend do you agree or disagree with this statement: My neighbourhood is a place where people get on well together and help each other? Deprivation Fifth**




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi


## Tai


- Roedd y rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yng Nghaerdydd yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad '*Mae gen i fynediad at dai o ansawdd da*.'

- Nododd ychydig llai na hanner (47.5%) y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas ddirywiad yn eu sefyllfa ariannol bersonol dros y flwyddyn ddiwethaf, bedair gwaith yn fwy na'r rhai a oedd yn adrodd gwelliant (10.5%).

## Yr Amgylchedd

- Nododd dros hanner (51.7%) y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ostyngiad yng nglendid eu hardal leol, 21.3 pwynt canran yn fwy na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.









*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Swyddi a’r Economi

- Y rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf oedd fwyaf tebygol o fod wedi gweithio gartref.
- Ymatebwyr yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf oedd fwyaf tebygol o gytuno nad oedd eu sefyllfa gyflogaeth wedi newid (83.6%), gyda lefelau'r cytundeb yn gostwng yn ôl lefel amddifadedd.
- Y rhai hynny oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf oedd y lleiaf tebygol o gytuno bod eu swydd yn teimlo'n ddiogel (58.4% o'i gymharu â 67.5% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf).
- Nododd ychydig llai na hanner (47.5%) y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas ddirywiad yn eu sefyllfa ariannol bersonol dros y flwyddyn ddiwethaf, bedair gwaith yn fwy na’r rhai a oedd yn adrodd gwelliant (10.5%).








*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Diogelwch Cymunedol

- Roedd cydberthynas amlwg rhwng anghytuno bod yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus lleol eraill yn llwyddo i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd, â lefel amddifadedd, gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ddwywaith yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf na'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Diogelwch Cymunedol

- Teimlai'r rhai a oedd yn byw yn ardaloedd mwy difreintiedig y ddinas yn llai diogel na'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf pan oeddent: gartref, yn ystod y dydd ac yn arbennig ar ôl iddi dywyllu; a cherdded yn eu cymdogaeth, yn ystod y dydd ac yn arbennig ar ôl iddi dywyllu (gostyngodd cyfran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu cymdogaeth ar ôl iddi dywyllu o 73.3% ymhlith y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf i 28.7% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf). Mae'r data ynghylch tueddiadau yn dangos bod lefelau diogelwch yn y sefyllfaoedd hyn wedi newid i raddau helaeth ers 2019.

- Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn teimlo'n anniogel yn y sefyllfaoedd hyn i esbonio pam eu bod yn teimlo fel hyn:

| % Teimlo'n Ddiogel | Gartref | | Cerdded yn eich cymdogaeth | | Cerdded yng nghanol y ddinas | | Teithio mewn bws | | Wrth feicio yng Nghaerdydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser | Golau dydd | Wedi iddi dywyllu | Golau dydd | Wedi iddi dywyllu | Golau dydd | Wedi iddi dywyllu | Golau dydd | Wedi iddi dywyllu | Golau dydd | Wedi iddi dywyllu |
| Mwyaf Difreintiedig | 91.6 | 67.7 | 83.9 | 28.7 | 80.0 | 39.1 | 92.9 | 54.0 | 59.9 | 19.8 |
| Yr Ail Fwyaf Difreintiedig | 95.7 | 84.5 | 90.1 | 40.9 | 85.3 | 30.7 | 94.1 | 57.9 | 60.9 | 28.4 |
| Canol | 95.8 | 86.6 | 93.2 | 51.2 | 82.4 | 35.0 | 94.2 | 53.4 | 69.8 | 27.2 |
| Yr Ail Leiaf Difreintiedig | 97.5 | 90.9 | 95.9 | 61.1 | 82.2 | 32.6 | 94.5 | 58.6 | 61.7 | 27.1 |
| Lleiaf Difreintiedig | 98.4 | 94.4 | 97.4 | 73.3 | 87.0 | 30.0 | 95.3 | 58.6 | 59.7 | 22.4 |
| Cyffredinol | 96.3 | 85.9 | 92.8 | 53.1 | 82.8 | 30.3 | 94.3 | 54.4 | 60.9 | 24.5 |

| Walking in your neighbourhood | |
|---|---|
| Disruptive / Intimidating Youths | *20.5%* |
| Anti-social behaviour | *16.8%* |
| Drug Use & Dealing | *15.1%* |

| Walking in the city centre | |
|---|---|
| Drunk & Disorderly behaviour | *26.4%* |
| Homeless / Beggars | *24.8%* |
| Drug Use & Dealing | *18.1%* |

| Travelling by bus | |
|---|---|
| COVID | *19.1%* |
| Anti-Social Behaviour | *14.6%* |
| Poor Street Lighting, Travelling in the dark | *13.8%* |

| Cycling | |
|---|---|
| Dangerous driving or Speeding | *27.7%* |
| Dark / Poor lighting | *16.8%* |
| Not enough segregated cycle lanes | *15.8%* |

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2021 a 2022)*


# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Iechyd a Lles

- Y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas oedd â’r gyfran isaf o iechyd meddwl 'da' (54.0%)

- Y gwahaniaeth yng nghyfran yr ymatebwyr o'r ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf a lleiaf yn y ddinas ag iechyd meddwl da oedd 21.3 pwynt canran

- Roedd yr ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl (58.4%) yn fwyaf tebygol o ddweud bod eu hiechyd corfforol wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf.




| | Most Deprived | Least Deprived | Difference |
|---|---|---|---|
| **2021** | 64.2 | 74.5 | 10.3 |
| **2020** | 53.4 | 79.3 | 26.0 |
| **2019** | 62.0 | 84.0 | 21.9 |

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Iechyd a Lles

- Roedd ymatebwyr oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai a nododd eu bod yn anabl yn y ddinas yn llai bodlon ac yn llai hapus.

- Dywedodd un o bob pedwar (26.1%) o'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas bod eu hiechyd corfforol wedi gwella, gan gyferbynnu â thraean (36.7%) yn dweud ei fod wedi gwaethygu.

| *Group* | Satisfied | Happy | Anxious | Worthwhile |
|---|---|---|---|---|
| All respondents | 6.6 | 6.5 | 4.1 | 6.6 |
| Under 35 | 6.4 | 6.1 | 4.8 | 6.2 |
| 55+ | 6.9 | 6.9 | 3.6 | 6.9 |
| Female | 6.6 | 6.5 | 4.3 | 6.7 |
| Male | 6.8 | 6.7 | 3.7 | 6.7 |
| Minority Ethnicity | 6.7 | 6.5 | 4.6 | 6.8 |
| Southern Arc | 6.4 | 6.3 | 4.3 | 6.4 |
| Identify as Disabled | 5.4 | 5.4 | 4.4 | 5.5 |
| Welsh Speaker | 6.9 | 6.8 | 4.1 | 7.1 |
| LGBTQ+ | 6.1 | 5.9 | 4.7 | 6.1 |
| Children in household | 6.5 | 6.4 | 4.4 | 6.8 |
| Most Deprived | 5.8 | 5.8 | 4.5 | 5.8 |
| Next Most Deprived | 6.4 | 6.2 | 4.3 | 6.5 |
| Middle | 6.7 | 6.6 | 3.9 | 6.7 |
| Next Least Deprived | 6.7 | 6.6 | 4.1 | 6.7 |
| Least Deprived | 6.2 | 7.0 | 3.7 | 7.2 |

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Budd-daliadau a Chyngor

- Roedd y rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn fwy tebygol o ofyn am gyngor:

| % wedi cyrchu cyngor yn y gorffennol | 2022 | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|
| Â'r amddifadedd mwyaf | 27.6 | 16.6 | 27.9 |
| Â'r amddifadedd lleiaf | 6.8 | 11.8 | 8.8 |

- Mae cydberthynas rhwng y rheini nad ydynt yn gallu fforddio bwyd a lefel yr amddifadedd, gyda'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf o leiaf ddwywaith yn fwy tebygol na'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf o fod wedi cymryd y camau a restrir:

| | 2022 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Mwyaf difreintiedig | Lleiaf difreintiedig | Mwyaf difreintiedig | Lleiaf difreintiedig |
| Wedi cael prydau llai nag arfer, neu hepgor prydau | 28.4 | 6.5 | 17.1 | 5.7 |
| Wedi bod angen bwyd ond heb fwyta | 14.0 | 1.3 | 8.0 | 3.7 |
| Heb fwyta am ddiwrnod cyfan | 10.2 | 0.2 | 4.3 | 2.0 |
| Wedi cael bwyd gan fanc bwyd neu elusen | 7.2 | 0.3 | 4.3 | 0.7 |

*Ffynhonnell: Arolygon Holi Caerdydd*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi


## Tai a Chartrefi Newydd

- Y rhai oedd yn byw yn yr ardal â'r amddifadedd lleiaf oedd yn dangos y gefnogaeth gryfaf i safleoedd tir llwyd.

## Teithio a Symud o gwmpas y Ddinas

- Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas yn fwy tebygol o fod yn teithio ar gyfer siopa/nwyddau, o fod wedi defnyddio'r bws ac wedi gyrru mwy na'r rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.

- Roedd ymatebwyr oedd yn byw yn yr ardaloedd â’r o amddifadedd mwyaf yn fwy tebygol o flaenoriaethu buddsoddi mewn beicio a cherdded nag ardaloedd mwy cefnog. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn fwy tebygol o roi mwy o flaenoriaeth ar fuddsoddi mewn seilwaith trenau.




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2021) a’r Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Amddifadedd

- Roedd y rhai oedd yn byw yn Arc Ddeheuol y ddinas yn fwy tebygol o deimlo y gellid gwella eu cymdogaeth drwy:
  - Ei gwneud yn fwy diogel/gostwng y gyfradd droseddu (61.9%)
  - Darparu amgylchedd dymunol i gerdded ynddo (47.4%)
  - Darparu gweithgareddau awyr agored/mannau agored/parciau (39.5%)


- Wrth edrych ar safbwyntiau yn ôl lefelau gwahanol o amddifadedd, nodwyd rhai gwahaniaethau nodedig:
  - Roedd 82.8% o'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf am i'w cymdogaeth leol fod yn ddiogel, o'i gymharu â 17.6% o'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.
  - Roedd 45.3% o'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf am ddarparu gweithgareddau awyr agored/mannau agored/parciau o'u cymharu â 27.1% o'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.
  - Roedd 43.8% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf eisiau i'w cymdogaeth fod yn fwy ystyriol o deuluoedd, o'i gymharu â 18.1% o drigolion yr ardaloedd mwyaf cyfoethog.
  - Roedd 29.7% o'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf eisiau darpariaeth gofal plant da, o'i gymharu ag 11.8% o'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.

*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Diogelu Seilwaith Gwyrdd a Glas

- Roedd y rhai sy'n byw mewn ardaloedd â mwy o  amddifadedd yn fwy tebygol o gefnogi colli tir glas er budd cymdeithasol clir, a disodli'r man gwyrdd, tra bod y rhai yn yr ardaloedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o deimlo y dylid gwarchod mannau gwyrdd ar draul isadeiledd newydd.





*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*

# Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

## Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Gweledigaeth ac Amcanion

- Roedd cefnogaeth i weledigaeth y CDLl ar ei uchaf ymhlith y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (74.6%), ac isaf ymhlith y rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf cyfoethog y ddinas (58.3%).

- Gan edrych ar yr amcanion un am un, roedd y rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar "*Creu lleoedd y mae pobl eisiau byw, gweithio a mynd i grwydro ynddynt*" (34.5%), "*Darparu tai a chartrefi newydd*" (29.1%) a "*Darparu swyddi a chyflogaeth newydd*" (23.6%). Roedd y rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar "*Ddiogelu seilwaith gwyrdd a glas*" (39.8%) a "*Chefnogi rolau Canol y Ddinas a Bae Caerdydd*" (9.5%).




*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*


# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Diogelwch Cymunedol: Pryderon y gymuned

- Y 5 pwnc sy’n achosi’r mwyaf o bryder - yn ôl blaenoriaeth - i Gaerdydd yw:
    1. Strydoedd Diogelach
    2. Bwrgleriaeth a Dwyn
    3. Camddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau
    4. Goryrru a gyrru’n beryglus
    5. Troseddau â chyllyll

- Roedd 68.02% o'r ymatebwyr o'r farn bod troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu yng Nghaerdydd yn ystod y 3 blynedd diwethaf, tra bod 68.28% o'r farn ei fod wedi cynyddu yn ystod y 12 mis diwethaf. Tebyg oedd yr ymateb ar draws De Cymru.

**To what extent do you feel that crime and anti-social behaviour has increased or decreased in your local area? (In the last 3 years)**




*Ffynhonnell: Arolwg Cymunedol Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (2022)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus


## Diogelwch Cymunedol: Ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Roedd un o bob pump (21.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno bod digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn eu hardal leol; roedd dros hanner (52.1%) yn anghytuno, gyda 24.5% yn anghytuno yn gryf.
    - Roedd y gyfran sy'n cytuno â'r datganiad hwn i fyny 0.7 pwynt canran ar 2021; roedd y gyfran oedd yn anghytuno i lawr 4.1 pwynt canran.
    - Roedd canran y rhai oedd yn cytuno â'r datganiad hwn yn uwch ar draws pob grŵp demograffig ac eithrio'r rhai dan 35 a'r rhai sy'n byw yn yr Arc Ddeheuol.
    - Roedd canran y rhai oedd yn cytuno yn amrywio o 32.5% i'r rhai o Leiafrif Ethnig i 17.0% ymhlith yr ymatebwyr sy'n byw yn yr Arc Ddeheuol; roedd tua dwy ran o dair (64.9%) o'r rhai oedd yn nodi eu bod yn anabl yn anghytuno.
    - Roedd y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn llai tebygol o gytuno i'r datganiad na'r rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.

- Mae boddhad gyda gwasanaethau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi codi i 39.5% (yn 2021, roedd 34.3% yn fodlon), gyda lefel boddhad yn arbennig o isel ymhlith trigolion sy'n byw yn Arc Ddeheuol Caerdydd.

- Mae lefel boddhad gydag amledd fandaliaeth a graffiti hefyd wedi gostwng ers 2021 (o 35.8% i 35.3% yn 2022).

**To what extent do you agree or disagree that the police and other local public services are successfully dealing with anti-social behaviour and crime in your local area?**
**(Base: 2,738)**





*Excludes 'Don't Know' responses*

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Diogelwch Cymunedol: Teimlo'n Ddiogel

- Ar y cyfan, roedd trigolion Caerdydd yn teimlo'n fwyaf diogel:
  - Gartref yng ngolau dydd (96.3%)
  - Wrth gerdded yn eu cymdogaeth yng ngolau dydd (92.8%)
  - Wrth deithio ar fws yng ngolau dydd (94.3%).
- Roeddent yn teimlo'n lleiaf diogel:
  - Wrth feicio yng Nghaerdydd ar ôl iddi dywyllu (24.5%)
  - Wrth gerdded yn y ddinas ar ôl iddi dywyllu (30.3%)
  - Wrth deithio ar y bws ar ôl iddi dywyllu (54.4%)
- Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu canfyddiadau arolygon blaenorol
- Fel y gwelwyd mewn arolygon blaenorol, roedd menywod yn teimlo'n llai diogel na dynion ym mhob sefyllfa, gyda'r gwahaniaeth yn fwy ar ôl iddi dywyllu.
- Roedd ymatebwyr iau yn teimlo'n llai diogel na'u cymheiriaid hŷn, ym mhob ardal ag eithrio drwy feicio, waeth beth fo'r amser.
- Roedd y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas yn teimlo'n llai diogel na'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ymhob amgylchiad, ac eithrio pan yn cerdded ynghanol y ddinas ar ôl iddi nosi.
- Ar yr un pryd, mae boddhad gyda goleuadau stryd wedi gostwng ers 2020 (o 74.6% i 66.2%).




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Diogelwch Cymunedol: Barn am Blismona

- Yng Nghaerdydd:
  - 39.34% yn cytuno bod yr heddlu'n trin pobl yn deg
  - 50% yn cytuno bod yr heddlu'n gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt
  - 59.14% â pharch at yr heddlu yn eu hardal leol
  - 36.80% ag ymddiriedaeth yn yr heddlu yn eu hardal leol
  - 20.05% yn cytuno bod yr heddlu'n gwneud gwaith da yn eu hardal leol

- Pan ofynnwyd a fydden nhw'n fodlon talu mwy tuag at blismona fel rhan o'r Dreth Gyngor, nododd 57.87% o ymatebwyr Caerdydd na fydden nhw'n fodlon.


*Ffynhonnell: Arolwg Cymunedol Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (2022)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Cydlyniant Cymunedol

- Roedd hanner yr ymatebwyr (49.8%) yn cytuno bod eu '*cymdogaeth yn rhywle lle mae pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd ac yn helpu ei gilydd';* roedd hyn yn ostyngiad o 11.6 pwynt canran o'r hyn ydoedd yn 2021 (61.4%).
  - Roedd ymatebwyr hŷn yn fwyaf tebygol o gytuno â'r datganiad hwn (55.1%), 15.8 pwynt canran yn uwch na’r rhai dan 35 oed (39.3%) a 13.9 pwynt canran yn uwch na'r rhai sy'n perthyn i'r gymuned LHDTC+ (41.2%).
  - Roedd cydberthynas glir rhwng cytuno â'r datganiad hwn a lefel yr amddifadedd, yn amrywio o 33.2% ymhlith y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf i 69.1% ymhlith y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.

**To what extent do you agree or disagree with this statement: My neighbourhood is a place where people get on well together and help each other? (Base: 2,776)**




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Eich Cymdogaeth

- Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), rhoddwyd rhestr i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt nodi pa rai yr oeddent yn teimlo eu bod yn berthnasol i wneud eu cymdogaeth yn lle da i fyw.

- Yr ymateb mwyaf cyffredin, a ddewiswyd gan bron i dri chwarter (73.1%) o'r ymatebwyr, oedd '*Gweithgareddau awyr agored/mannau agored/parciau.'* Dilynwyd hyn gan '*Yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus'* (69.5%), '*Amgylchedd cerdded dymunol'* (63.6%), a '*Diogel (cyfradd troseddau isel)'.* Dewiswyd y rhain gan 61.5% o'r ymatebwyr. Cyfeiriodd tri o bob deg (29.1%) at '*Cyfleusterau/gweithgareddau cymunedol da',* dywedodd 23.1% '*Llwybrau beicio da'*, a nododd 12.6% fod '*Darpariaeth gofal plant da'*.

- Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr beth y gellid ei wneud i wella eu cymdogaeth leol. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd '*Darparu cyfleusterau/gweithgareddau cymunedol da'*, y soniwyd amdano gan 47.1% o'r ymatebwyr. Roedd dwy ran o bump o'r ymatebwyr (40.1%) eisiau i'w cymdogaeth gael ei gwneud yn fwy diogel, ac roedd 37.3% eisiau llwybrau beicio da.


*Ffynhonnell:*
*Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Hybiau a Llyfrgelloedd

- Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn dweud eu bod wedi ymweld â llyfrgell neu Hyb yn y 12 mis diwethaf wedi codi 5.2 pwynt canran i 52.6%.
  - Roedd ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig yn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â llyfrgell neu Hyb yn ystod y 12 mis diwethaf (66.9%); ymatebwyr gwrywaidd oedd leiaf tebygol (52.1%).
- Mae'r ganran sy'n fodlon gyda Hybiau a Llyfrgelloedd wedi codi ychydig i 64.4% am y tro cyntaf mewn tair blynedd - roedd y ganran a oedd yn fodlon yn 64.1% yn 2021.
- Pan ofynnwyd iddynt nodi pa wasanaethau - a ddarparwyd o fewn Hybiau/llyfrgelloedd lleol - oedd yn fwyaf defnyddiol, yn ôl dau o bob pump (42.3%) doedd yr un o'r gwasanaethau yn ddefnyddiol, gan adlewyrchu'r gyfran oedd yn dweud nad oeddent wedi ymweld â Hyb neu lyfrgell dros y flwyddyn flaenorol.
  - O'r gwasanaethau a restrwyd, y mwyaf defnyddiol oedd '*Benthyg llyfr*' yn ôl 37.5% o'r ymatebwyr. Dilynwyd hyn gan '*Digwyddiadau cymunedol*' (10.6%), a '*gweithgareddau plant, gan gynnwys amser stori a rhigwm*' (10.2%).

**Did you visit a library or Hub in the last 12 months?**




*Base sizes shown in brackets; excludes 'Don't Know' responses*


*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 4 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

## Gwirfoddoli

- Dywedodd chwarter (27.5%) o'r ymatebwyr i Arolwg Holi Caerdydd 2022 eu bod yn gwirfoddoli ar hyn o bryd, yn gyfartal â chanfyddiadau 2021 - cododd hyn i 35.9% o'r ymatebwyr sy'n siaradwyr Cymraeg a gostwng i 21.2% o rai dan 35 oed.
  - Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o fod eisoes yn ymwneud â Dysgu mwy am sut i leihau eich ôl troed carbon (19.7%) a Gwirfoddoli Cymunedol (17.5%).

- Roedd y rhai nad oeddent yn gwirfoddoli ar hyn o bryd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y canlynol:
  - Dysgu mwy am leihau eich ôl troed carbon (19.3%)
  - Gwella diogelwch cymunedol fel rhan o Gynllun Gwarchod Cymdogaeth (19.2%)
  - Gwirfoddoli yn y Gymuned (18.8%)





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 5 - Prifddinas sy’n gweithio dros Gymru

## Yr Economi

- Mae cyfran yr ymatebwyr sy’n cytuno bod gan Gaerdydd economi lewyrchus sy'n ffynnu wedi parhau i ostwng yn raddol, gyda 35.9% o ymatebwyr yn cytuno, o'i gymharu â 43.1% yn 2021, a 50.8% yn 2020.
  - Y rhai dan 35 oed oedd fwyaf tebygol o gytuno â'r datganiad hwn (48.6%) ynghyd â Siaradwyr Cymraeg (47.0%).
  - Roedd yr ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod yn anabl eto yn lleiaf tebygol o gytuno (30.5%, i lawr o 38.4% yn 2021).
  - Roedd ymatebwyr gyda phlant ar eu haelwydydd (41.8%) a'r rhai o'r gymuned LHDTC+ (40.4%), yn y 4ydd a’r 5ed safle o ran lefel eu cytundeb.
  - Nid oedd cydberthyniad clir â lefel amddifadedd.

**To what extent do you agree that Cardiff has a thriving and prosperous economy?**





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 5 - Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

## Yr Economi

- Fodd bynnag, mae hyder o ran rhagolygon swyddi wedi gwella o ganfyddiadau Arolwg Holi Caerdydd 2021, gyda 60.2% yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus, i fyny o 60.1%.
  - Roedd hyder mewn rhagolygon o ran gwaith/gyrfa ar ei uchaf ymhlith y rhai dan 35 oed (66.8%, i fyny o 64.8%), a Merched (66.2% i fyny o 64.6%) Roedd ar ei isaf ymhlith y rhai a nododd eu bod yn anabl (44.9%).
  - Nid oedd cydberthyniad â lefel amddifadedd.




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 5 - Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

## Gweithleoedd


- Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), rhoddwyd rhestr o opsiynau yn y gweithle i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt eu rhoi yn nhrefn pwysigrwydd.

- '*Ail-bwrpasu lloriau manwerthu gwag yng nghanol y ddinas, ei hardaloedd a'i chanolfannau lleol*' oedd yn cael ei weld fel y pwysicaf o'r opsiynau a roddwyd, gyda 19.1% o'r ymatebwyr yn ei roi ar frig y rhestr, a 55.6% o'r holl ymatebwyr yn ei roi yn eu tri uchaf.

  — Roedd y gefnogaeth ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr o Leiafrifoedd Ethnig, gyda 62.5% yn ei roi yn y tri dewis uchaf.

  — Roedd y gefnogaeth ar ei isaf ymhlith ymatebwyr iau, gyda 46.7% ohonynt yn ei restru yn eu tri uchaf.

- Dilynwyd hyn gan '*Hybiau cyflogaeth bychain mewn mannau hygyrch*' (a roddwyd yn y tri uchaf gan 89.3%, gyda 17.2% yn ei roi fel y pwysicaf), a gan '*Ardaloedd cyflogaeth presennol wedi'u gwella neu hadnewyddu*' (rhestrwyd yn y tri uchaf gan 91.4%, ac yn gyntaf gan 12.5%).




*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*


# Amcan Lles 5 - Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

## Diwylliant

- Pan ofynnwyd: 'yn y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi bod i unrhyw un o'r canlynol yng Nghaerdydd?', roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (66.8%) wedi bod i o leiaf un o'r gweithgareddau diwylliannol neu'r digwyddiadau a restrwyd, yn gyfartal â 2020 (68.8%) a 2021 (64.4%).

- Fel y gwelwyd mewn arolygon blaenorol, roedd yr ymatebwyr fwyaf tebygol o fod wedi bod i'r sinema.

| | 2022 | 2021 | 2020 | 2019 |
|---|---|---|---|---|
| Sinema | 53.9 | 37.7 | 59.7 | 74.0 |
| Gweithgaredd diwylliannol arall | 50.3 | 28.1 | 47.3 | 66.0 |
| Cerddoriaeth fyw neu gyngerdd | 46.2 | 24.2 | 43.1 | 60.1 |
| Theatr | 43.7 | 21.0 | 43.3 | 57.1 |
| Amgueddfa | 42.6 | 25.0 | 50.9 | 64.0 |
| Oriel Gelf | 22.7 | 12.0 | 25.9 | 36.3 |




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 5 - Prifddinas sy’n gweithio dros Gymru

## Dyfodol Canol y Ddinas

- Roedd mwy na phedwar o bob pump a ymatebodd yn teimlo y dylai rôl canol y ddinas yn y dyfodol fod ar gyfer Adloniant (89.4%), Siopa (86.5%) a Lletygarwch (84.4%). Roedd ychydig dros hanner (55.6%) yn teimlo y dylai fod ar gyfer Swyddfeydd, ac ychydig llai na hanner (48.4%), ar gyfer Cartrefi.
  - Roedd ymatebwyr iau, a'r rhai o Leiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o nodi y dylid defnyddio canol y ddinas ar gyfer Adloniant neu Letygarwch, gan gyferbynnu ag ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn anabl, a'r rhai 55 oed neu hŷn.
  - Roedd cydberthynas rhwng lefel amddifadedd a'r rhai oedd yn meddwl y dylid defnyddio canol y ddinas ar gyfer Lletygarwch, gydag ardaloedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o weld rôl i letygarwch ynghanol y ddinas yn y dyfodol. Roedd yr ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn fwy tebygol o weld Cartrefi fel swyddogaeth i ganol y ddinas yn y dyfodol.
  - Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o awgrymu Cartrefi i ganol y ddinas yn y dyfodol nag ymatebwyr o dan 35 oed.
- Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddatgan y byddent yn defnyddio canol y ddinas yn y dyfodol fel lleoliad i gwrdd â theulu a ffrindiau (45.7%), wedi’i ddilyn gan Ddiwylliant/Twristiaeth (42.5%), Gweithio Hybrid (41.8%) ac Adloniant/Hamdden (41.2%).
  - Awgrymodd bron i ddwy ran o dair (64.8%) y byddent yn llai tebygol o fod yn gweithio mewn swyddfa yng nghanol y ddinas yn y dyfodol, o'i gymharu â dim ond 7.0% oedd yn teimlo bod hyn yn fwy tebygol.

*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*

# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur

- Mynegodd 84.1% o'r ymatebwyr i arolwg Holi Caerdydd 2022 bryder ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd, tra bod 95.8% o'r ymatebwyr o Gaerdydd i arolwg 'Natur a Ni' Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi mynegi eu bod yn credu bod newid yn yr hinsawdd yn argyfwng byd-eang. Yn ogystal, mynegodd 94.7% o ymatebwyr CNC yng Nghaerdydd eu bod yn credu bod yr argyfwng natur yn argyfwng byd-eang.

- Roedd 67.8%* o'r rhai wnaeth ymateb - i arolwg Holi Caerdydd 2022 - yn teimlo nad yw'r Cyngor yn gwneud digon i ymateb i her y newid yn yr hinsawdd.

- O'r rheini a ymatebodd**, nododd 88.3% o'r ymatebwyr yng Nghaerdydd i'r arolwg 'Natur a Ni' eu bod yn '*barod iawn*' i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er lles yr amgylchedd a nododd 13% eu bod yn '*weddol barod*.' Y tri newid mwyaf poblogaidd fyddai annog mwy o fywyd gwyllt mewn gerddi a chymunedau; bwyta cynnyrch lleol pan fyddan nhw yn eu tymor ac ymrwymo i ailddefnyddio ac atgyweirio eitemau sydd wedi'u difrodi yn hytrach na'u taflu i ffwrdd. Ymhlith y rhwystrau rhag newid roedd cost ychwanegol, unigolion eisoes yn gwneud cymaint ag y gallan nhw a diffyg isadeiledd, fel lonydd beiciau.

- Yn ogystal, nododd un o bob pedwar a ymatebodd i ymgynghoriad drafft Strategaeth Ailgylchu (2021-25) y Cyngor eu bod wedi gwirfoddoli i wella ansawdd amgylcheddol eu hardal leol yn y gorffennol. Y ffordd fwyaf cyffredin o gymryd rhan oedd, '*Fe welais i'r cyfle.*'

* Pan mae ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u heithrio.
**Atebodd 111 o'r 262 o ymatebwyr o Gaerdydd y cwestiwn: 'pa mor barod ydych chi i wneud newidiadau i'ch ffordd o fyw er lles yr amgylchedd?' Roedd yr opsiynau o ran ymatebion yn cynnwys: 'yn fodlon iawn', 'yn weddol fodlon', 'ddim yn arbennig o fodlon' a 'ddim o gwbl yn fodlon.'

# WBO 6 – Caerdydd Un Blaned

## Bwyd

- Nid oedd bron saith o bob deg (68.5%) o'r ymatebwyr yn ymwybodol o weithgareddau yn ymwneud â bwyd yng Nghaerdydd.
  - Mae hyn yn gostwng i 58.2% pan gaiff ei weld gan ymatebwyr yr Arc Ddeheuol.

- Y rhwystr pennaf sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd yw diffyg amser.

- Dim ond un o bob deg (9.9%) sy'n teimlo'n hyderus y gallan nhw '*ddylanwadu ar y ffordd y mae bwyd yn cael ei dyfu, ei brynu neu ei fwyta yn y ddinas*.'

- Mae 75.8% yn teimlo'n hyderus y gallan nhw '*atal gwastraff bwyd*'; 36.4% yn teimlo'n hyderus yn '*tyfu [eu] bwyd eu hunain*'; a 39.6% yn teimlo'n hyderus yn '*prynu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd*.'
  - Ar draws pob un o'r gweithgareddau hyn, roedd yr ymatebwyr o dan 35 oed yn llai hyderus na'u cymheiriaid 55+ oed.




*Ffynhonnell: Ymgynghoriad Dinas Gyfan ar y Strategaeth Fwyd (2022)*


# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Tai

- Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gofynnwyd i drigolion roi ystyriaethau am gartrefi yn y dyfodol mewn trefn.

- Rhoddodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (67.6%) '*Ynni effeithlon*' fel un o'u tair ystyriaeth bwysicaf - i sicrhau y bydd cartrefi newydd yn mynd i'r afael â newidiadau ym maes newid hinsawdd a newidiadau o ran ffordd o fyw a thechnoleg.

- Dilynwyd hyn gan '*Fforddiadwy i'w rhedeg*' - gyda 48.8% yn rhoi hyn yn y tri uchaf a 14.0% yn ei roi fel y pwysicaf - ac yna '*Ecogyfeillgar'*, a gafodd ei roi yn y tri uchaf gan 45.8% o gyfanswm y pleidleisiau, gyda 19.1% yn ei roi fel y pwysicaf.




*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (2021)*

# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Trafnidiaeth

- Yn ôl arolwg Holi Caerdydd 2022, cododd boddhad dinasyddion gydag thrafnidiaeth gyhoeddus 4.3 pwynt canran rhwng 2021 a 2022 - o 43.7% i 48.0%. Mae canlyniadau arolwg 2021 yn dangos bod y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu o leiaf deirgwaith drosodd rhwng 2020 a 2021; mae hyn efallai'n adlewyrchu'r llacio yng nghyfyngiadau'r cyfnod clo.

- Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gofynnwyd i'r trigolion flaenoriaethu lle dylai'r Cyngor fuddsoddi adnoddau mewn seilwaith trafnidiaeth. Roedd buddsoddi mewn seilwaith bysiau ar frig rhestr flaenoriaeth 72.5% ohonynt, gyda 66.4% yn ffafrio buddsoddi yn y seilwaith trenau. Roedd beicio a cherdded hefyd yn y tri uchaf gan dros hanner y rhai a ymatebodd (54.4% a 51.2% yn y drefn honno).

  - Rhoddodd trigolion iau fwy o bwyslais ar fathau llesol o deithio

  - Roedd ymatebwyr oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn fwy tebygol o flaenoriaethu buddsoddi mewn beicio a cherdded nag ardaloedd mwy cefnog.


- Cyfeiriwyd at yr angen am rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus gwell sydd wedi'u cysylltu'n dda ymhlith yr atebion i gyd yn arolwg 'Natur a Ni' CNC.

# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Ansawdd Aer

- Roedd tua dau o bob pump (39.7%) yn cytuno bod ansawdd yr aer yng Nghaerdydd yn dda, i fyny o 37.6% a gofnodwyd yn 2021, pan gyfyngwyd ar y defnydd o gerbydau yn ystod y cyfnodau clo, ond yn uwch na'r 33.6% a welwyd yn 2019.
  - Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn yr Arc Ddeheuol yn lleiaf tebygol o ddweud bod yr ansawdd aer yng Nghaerdydd cystal, gan adlewyrchu'r canfyddiadau o 2021 (36.0%, i fyny o 33.2%), er nad oedd cydberthynas glir rhwng sgôr ansawdd aer yn y ddinas a lefel yr amddifadedd.

**I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr ansawdd aer yng Nghaerdydd yn dda?**




*Base sizes shown in brackets; excludes 'Don't Know' responses*

*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Parciau a Mannau Agored

- Fel rhan o arolwg Holi Caerdydd 2022, rhoddwyd rhestr o wasanaethau cymdogaeth i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt roi lefel eu boddhad gyda phob un. Gan efelychu arolwg 2021, roedd boddhad ar ei uchaf ar gyfer parciau a mannau agored (74.0%).

- Yn arolwg 2021 Holi Caerdydd, cytunodd mwy na phedwar o bob pump (86.1%) fod '*mwy o bobl yn defnyddio parciau a mannau agored*', a hynny'n gyson ag arolwg Holi Caerdydd 2020.


- Ystyriwyd bod gwarchod a gwella mannau gwyrdd yn gamau allweddol i'w cymryd dros y 10 mlynedd nesaf, gan ymatebwyr i'r arolwg 'Natur a Ni'.

# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Ailgylchu

- Mae bron pob un (98%) yn ailgylchu bob wythnos.
- Roedd 58.6% yn fodlon gyda'r casgliadau ailgylchu a gwastraff
- Dim ond tua un o bob tri (35.1%) oedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud digon i ddweud wrth drigolion beth i'w ailgylchu, a sut.
    - Roedd cydsyniad â hyn ar ei isaf ymhlith yr ymatebwyr oedd yn nodi eu bod yn anabl a'r rhai o dan 35 oed (30.9% a 32.7% yn y drefn honno).
- Pan ofynnwyd iddynt sut y gallai'r Cyngor wella hyn, '*Gwneud gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill*' oedd yr ymateb pennaf (63%). Dilynwyd hyn gan: '*danfon mwy o daflenni / llythyrau i aelwydydd*' (55.1%) a '*gweithio gyda phlant, gan gynnwys ysgolion a chlybiau ieuenctid*' (37.2%).

**Do you think the Council does enough to inform residents about how and what to recycle?**




**(Base: 3,124)**

*Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft Ailgylchu a Gwastraff Caerdydd 2021-25 ac Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 6 – Caerdydd Un Blaned

## Glendid strydoedd


- Fe wnaeth ychydig dros chwarter (28.7%) gytuno bod gan Gaerdydd amgylchedd glân, oedd yn 0.1 pwynt canran yn uwch na 2021, a 9.4 pwynt canran yn is na 2020.
  - Roedd canran y rhai oedd yn cytuno bod gan Gaerdydd amgylchedd glân yn isel ar draws yr holl grwpiau demograffig, yn amrywio o 25.5% o'r rhai sy'n byw yn yr Arc Ddeheuol i 38.2% o'r rhai dan 35 oed. Nid oedd cydberthyniad clir â lefel amddifadedd.
- Nododd dau o bob pump (39.8%) fod eu hardal leol yn llai glân dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â dim ond 3.4% oedd yn teimlo ei fod yn lanach.
- Nid oedd cydberthyniad clir rhwng lefel yr amddifadedd a chyfran yr ymatebwyr a nododd fod yr ardal yn llai glân. Fodd bynnag, nododd mwy na hanner (51.7%) y rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf bod dirywiad, 21.3 pwynt canran yn fwy na'r rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.


*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 7 - Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

## Boddhad â Gwasanaethau Cyhoeddus

- Bodlonrwydd ag ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus oedd y ffigyrau isaf a gofnodwyd yn arolwg Holi Caerdydd mewn degawd - roedd 52.1% o'r rhai a ymatebodd yn fodlon ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus (lawr 1.8 pwynt canran o 53.9% yn 2021). Roedd cynnydd yn y rhai oedd yn fodlon â'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu (47.8% - i fyny 0.5 pwynt canran o 47.3% yn 2021).
  - Roedd boddhad gydag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus ar ei isaf ymhlith yr ymatebwyr oedd yn nodi eu bod yn anabl, ac aelodau o'r gymuned LHDTC+.
  - Roedd boddhad gyda'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar ei isaf ymhlith y rhai sy'n nodi eu bod yn anabl a'r rhai 55+.








*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*

# Amcan Lles 7 - Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

## Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cymunedol

- Cytunodd ychydig llai nag un o bob pedwar (22.6%) eu bod yn gallu dweud eu dweud ar faterion lleol neu'r ffordd y mae gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu rhedeg yn eu cymuned, i lawr o 24.4% yn 2021.
  - Roedd y cytundeb â'r datganiad hwn ar ei uchaf ymhlith y rhai o Leiafrifoedd Ethnig (30.5%) ac isaf ymhlith y rhai oedd yn nodi eu bod yn anabl (22.0%).




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd (2022)*